AMGUEDDFA CYMRU

# PECYN LOCK-IN Y GWESTY'R VULCAN




museum.wales

# MAE’R VULCAN, TAFARN HYNAF CAERDYDD, YN AGOR EI DRYSAU I CHI.

Yn 2012, ar ôl ymgyrch lwyddiannus i arbed yr adeilad, cynigiwyd yr adeilad yn ffurfiol i Amgueddfa Cymru gan y perchnogion. Ym mis Mai'r flwyddyn honno dechreuodd y Curaduron a'r Uned Adeiladau Hanesyddol y broses o gofnodi'r adeilad yn ofalus cyn dechrau'r gwaith datgymalu. Dechreuodd y gwaith ailadeiladu yn 2020, ac yn haf 2024 bydd y drysau’n ailagor am y tro cyntaf mewn degawd.

Tafarn y Vulcan ar dir hanesyddol Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yw lleoliad mwyaf arbennig 2024 am barti.

Rhyfeddwch eich gwesteion mewn digwyddiad hollol unigryw. Ai Chi fyd y cyntaf i gael ‘lock-in’ yn y Vulcan?

Camwch yn ô i 1915 yn ein dehongliad hanesyddol o’r Vulcan am brofiad i’w gofio wrth fwynhau detholiad o gwrw cartref.

Bydd partïon preifat, digwyddiadau rhwydweithio a digwyddiadau teuluol yn cael mwynhau defnydd llawn o’r adeilad eiconig hwn o Gaerdydd.

Gyda dyddiadau cyfyngedig ar gael dros y flwyddyn, yn cychwyn o ddydd Sadwrn 14 Medi 2024, bachwch ar y cyfle!

I archebu, e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk





# PRIS PECYN LOCK-IN Y VULCAN

£599 +TAW

£599 + TAW (£719  yn cynnwys TAW)

**Pecyn yn cynnwys:**

- Mynediad arbennig o 6.30pm tan 11.30pm
- Staff bar penodedig
- Opsiwn i dalu am y bar ymlaen llaw
- Parcio am ddim ar y safle
- Defnydd o'r system PA gyfer adloniant

**Opsiynau Bwyd a Diod:**

- Trio Cwrw Vulcan – Gallwch chi archebu tri chwrw i'w blasu ymlaen llaw am £10 y pen, neu fwynhau ein detholiad o gwrw lleol
- Arlwyo – Siaradwch â'r tîm am drefnu bwyd wrth y bar neu stondinau trydydd part.

**Cludiant**

Mae rhestr o gwmnïau tacsi a bysiau lleol ar gael ar gais.

**Rhoddion**

Mae detholiad o anrhegion o'r Vulcan ar gael yn Siop Sain Ffagan. Siaradwch â'r tîm i archebu rhoddion ymlaen llaw.

**Telerau ac Amodau**

- Uchafswm o 70 o bobl
- Dyddiau Sadwrn yn unig
- Mae opsiwn i gau yn hwyrach ar gael ar gais am bris uwch
- Gall ceir gael eu gadael dros nos drwy gofnodi rhif cofrestru
- Dim ysmygu ar y safle
- Mae blaendal o 20% yn cael ei gymryd wrth archebu, ac ni ellir ei hawlio yn ôl
- Rhaid gwario isafswm yn bar.



## Cyswllt

Am fwy o wybodaeth, i drefnu ymweliad safle ac i archebu, cysylltwch dros e-bost â **llogi@amgueddfa.cymru.ac.uk** neu ffoniwch 02920 57 33 22. Cymerwch gip olwg ar ein gwefan **amgueddfa.cymru/llogi**

## Cefnogwch ni

Elusen yw **Amgueddfa Cymru** sy'n gasgliad o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Bydd pob digwyddiad rydych yn ei gynnal yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac ar gael i bawb ei defnyddio. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy adrodd stori Cymru yn ein hamgueddfeydd, ein cymunedau ac yn ddigidol.

Rhif elusen gofrestredig 525774

Lluniau gan Coal Poet Media.

**amgueddfa.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**